# Taflen wybodaeth Tâl Gwasanaeth Tocynnau

Ers mis Medi 2014, mae'r New Theatre wedi bod yn gweithredu Tâl Gwasanaeth Tocynnau ochr yn ochr ag archebion. £3.95 yw'r tâl ar hyn o bryd a bydd yn cael ei ychwanegu i unrhyw archeb a wneir dros y ffôn, drwy'r post, ar-lein a wyneb yn wyneb yn y Swyddfa Docynnau.

## Pam bod angen Tâl Gwasanaeth Tocynnau arnom?

Rydym wedi llwyddo i beidio â chodi tâl archebu cyffredinol am flynyddoedd, ond mae'n rhaid i ni nawr ddilyn esiampl lleoliadau eraill tebyg. Ni yw un o'r lleoliadau olaf o'n math yn y DU i gyflwyno'r tâl hwn. Mae'r Tâl Gwasanaeth Tocynnau yn helpu i sicrhau y gellir parhau i ddarparu gwasanaeth Swyddfa Docynnau o safon ar y safle yn y New Theatre. Tâl unigol yw'r tâl hwn, a godir fesul archeb ac nid fesul tocyn.

## Fydd ein cwsmeriaid yn elwa o'r Tâl Gwasanaeth Tocynnau hwn?

Byddant, yn ein barn ni. Drwy dalu'r tâl hwn ar bob archeb rydych chi'n sicrhau y gallwn barhau i ddarparu Swyddfa Docynnau ar y safle. Y dewis arall fyddai defnyddio asiantaeth archebu tocynnau allanol lle gallai'r taliadau fod yn sylweddol uwch ac mae'n debyg na fyddai ganddynt wybodaeth arbenigol am y lleoliad. Drwy ychwanegu'r tâl hwn rydym yn gallu cadw Swyddfa Docynnau yn y Theatr, gan gynnig nid yn unig gwybodaeth yn gysylltiedig â'r Theatr ond hefyd wybodaeth am y ddinas a'r ardal leol.

## A ellir osgoi'r Tâl Gwasanaeth Tocynnau os daw'r cwsmer i mewn i'r Swyddfa Docynnau a thalu gydag arian parod?

Codir y Tâl Gwasanaeth Tocynnau ar bob archeb, p'un a ydych yn talu gyda cherdyn, arian, siec, archeb bost, archeb sefydlog neu Docynnau Theatr. Nid tâl ar gyfer talu gyda cherdyn credyd/debyd yw hwn, ond tâl ar gyfer y gwasanaeth a gynigiwn i'r cwsmer. I sicrhau nad ydych yn gorfod talu'r tâl hwn yn aml, bydden ni'n argymell eich bod yn talu am yr holl sioeau yr hoffech eu gweld, ar yr un pryd. Os bydd eich archeb yn costio mwy na £75 mae croeso i chi ystyried defnyddio ein Cynllun Talu Gohiriedig sy'n rhannu cost eich archeb yn 4 taliad cyfartal am ddim cost ychwanegol i chi. Mae manylion llawn ar gael ar ein gwefan neu yn ein pamffled.

## Oes unrhyw eithriadau i'r Tâl Gwasanaeth Tocynnau?

Mae ambell i achos lle rydyn ni'n credu na fyddai'n briodol ychwanegu'r tâl hwn:

- Archebion partïon ysgol
- Archebion ar gyfer tocynnau sbâr, cynigion myfyrwyr a thocynnau React
- Prynu Tocynnau'r Theatr